**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 5 Hydref 2010 yn Siambr y Cyngor, Swyddfa Ardal, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, Trevor Roberts, Gethin G. Williams, (Cyngor Gwynedd), Y Cynghorwyr Peter Bunce (Cyngor Tref Abermaw), Mr K. J. Probert (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw), Mr Denis Howell (Clwb Hwylio Meirionnydd), Mr John Johnson (Cymdeithas Pysgodfeydd Mor Abermaw a Bae Ceredigion).

Sylwebydd: Y Cyng. David Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi)

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr Barry Davies | - | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr Ken Fitzpatrick | - | Swyddog Morwrol Harbyrau |
| Mr Huw Davies | - | Peiriannydd Grŵp |
| Mrs Glynda O'Brien | - | Swyddog Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr W. Roy Owen (arweinydd Portffolio Dysgu Gydol Oes), Ioan Thomas (Cadeirydd Pwyllgor Craffu Datblygu), Y Cyng. Aeron Williams (Cyngor Tref Abermaw), Y Cyng. Julian Kirkham (Cyngor Cymuned Arthog) a Mr Glyn Jones (Harbwr Feistr).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Trevor Roberts yn Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2010/11.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol Mr K. John Probert yn Is-gadeirydd i'r Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2010/11.**

3. **CROESO**

Croesawyd Mr John Johnson, cynrychiolydd Cymdeithas Pysgodfeydd Mor Abermaw a Cheredigion, i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn.

4. **DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2010.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

## 6. ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol**,** Mr Barry Davies, ar weithgareddau yn harbwr Abermaw gyda chyfeiriad penodol i'r canlynol:

(i) Mordwyo ac Angorfeydd
(ii) Trwyddedau Perchnogion a Chychwyr
(iii) Ystadegau'r Harbwr
(iv) Cyllidebau'r Harbwr
(v) Tymestl Arw mis Gorffennaf 2010
(vi) Cyfarfodydd Pwyllgorau Harbwr
(vii) Digwyddiadau
(viii) Cyflenwad Tanwydd Disel

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig :

(i) y bu i'r **cymhorthion mordwyo** gael eu harchwilio gan Tŷ'r Drindod ar y 21 Medi 2010 a oedd yn datgan eu bod mewn cyflwr derbyniol ac eithrio marc y Glwyd. Nodwyd bod llusern marc y Glwyd wedi ei ddiffodd a bod hysbysiad lleol i forwyr yn weithredol. Cadarnhawyd y byddir yn parhau i ymchwilio i'r gwaith o gynnal a chadw'r holl gymhorthion mordwyo yn ystod yr hydref a'r gaeaf a bydd yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn paratoi rhaglen gynhwysfawr i gynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo. Nodwyd bod cyflwr cymhorthydd y Glwyd wedi dirywio ymhellach ond bod y sustem angor dros dro wedi gwrthsefyll y tywydd garw a brofwyd dros yr haf. Disgwylir adroddiad peirianneg strwythurol ar ei gyfer ynghyd a chynigion i'w newid.

Mynegwyd pryder am gyflwr cymhorthydd y Glwyd gan sawl Aelod a bod angen i gael rhywbeth sefydlog yn hytrach na bwi ar y safle yn wyneb y ffaith bod creigiau yn yr ardal yma i gynorthwyo morwyr i fordwyo i mewn ac allan o'r Harbwr. Roedd y pwyllgor o'r farn nad oedd bwi yn dderbyniol o gwbl gan nad ydoedd yn hawdd i'w weld a bod elfen o ddiogelwch morwyr yn hanfodol. Nid oedd cynrychiolydd y Clwb Hwylio yn ymwybodol o unrhyw hysbysiad i forwyr ynglŷn â'r mater ac fe fynegwyd pryder ynglyn a diffyg anfon Rhybudd i Forwyr yn Abermaw. Ychwanegodd aelod arall nad oedd y goleuadau wedi gweithio am gyfnod o 4/5 mis a chadarnhaodd y Swyddog Morwrol bod yn rhaid adnewyddu'r golau yn ddi-oed a bydd yr Harbwr feistr gyda chymorth y Swyddog Morworl Harbyrau yn gweithredu ar unwaith.

Yn dilyn sylw gan Aelodau, addawodd y Swyddog Morwrol y byddai'n cysylltu â'r Harbwr Feistr i sicrhau bod tâp llachar yn cael ei roi ar y cymhorthion mordwyo eraill sydd yn y sianel fordwyo ac yn sicr dylai'r hysbysiad i forwyr fod wedi ei anfon i'r holl glybiau a chymdeithasau defnyddwyr y foryd.

(ii) rhyddhawyd pedair **Trwydded Perchennog** a saith Trwydded Cychwyr ar gyfer gwasanaeth rhwng Abermaw a Phwynt Penrhyn. Atgoffwyd yr aelodau bod pryder wedi ei ddatgan yn y gorffennol am lefel y cymwysterau a'r profiad sydd angen i forwr feddu cyn cael Trwydded Cychwr ac fe ymchwiliwyd ymhellach i'r mater gan yr Uned Forwrol.

Derbyniwyd nifer o lythyrau gan yr Uned Forwrol gan gychwyr yn cyhuddo naill a'r llall o beidio cydymffurfio hefo gofynion ac o'r herwydd fe ymchwiliwyd i'r honiadau gan swyddog Asiantaeth y Môr yn swyddogol ac answyddogol. Yn dilyn ei ymchwiliad, ni welodd unrhyw gwch yn gweithredu mewn modd a fyddai'n peri pryder ac 'roedd yn ffyddiog eu bod yn gweithredu'n ddiogel. Derbyniwyd bod gan y Cyngor drefniadau tynn iawn mewn lle ac y byddir yn tynhau eto'r hyn sy'n weithredol.

Nodwyd bod diogelwch teithwyr o'r pwysigrwydd pennaf a dylai pob Capten fod yn sicr fod cyflwr y tywydd ar y pryd yn ffafriol i'r daith sydd i'w chymryd. Pwysleisiwyd mai cyfrifoldeb Capten y cwch a fu wedi ei drwyddedu ydoedd hyn ac ni fedrai'r Uned Forwrol fod ar gael pedair awr ar hugain fel gwasanaeth i gymryd penderfyniad ynglŷn â diffiniad o "dywydd ffafriol" oherwydd bod yr ysgraff yn parhau i weithredu hyd at 8.00 p.m. yn ystod tymor yr haf. Rhaid i'r gwynt a chyflwr y môr fod yn addas ar gyfer unrhyw siwrnai. Cyfeiriwyd yr Aelodau at y diffiniad yn yr adroddiad ynghlwm sydd yng Nghod Ymarfer Asiantaeth y Môr i gychod masnachol.

Cyfeiriwyd Aelodau ymhellach at gopïau o Drwyddedau Perchnogion drafft ynghyd a rhestr gyfredol o offer diogelwch. Tynnwyd sylw at yr angen i gyflwyno'r dystiolaeth ganlynol:

- Tystysgrif cwch pŵer RYA Lefel 2 (lleiafswm) gyda thystiolaeth log 12 mis o brofiad perthnasol
- Tystysgrif cymorth cyntaf ddilys
- Trwydded VHF gyfyngedig
- Tystysgrif goroesi ar y môr
- Tystysgrif MCA a ML5 ffitrwydd meddygol (wedi ei haddasu i drwydded leol).

Y bwriad ydoedd bod y Cyngor yn cyflwyno ffurflen gais diwygiedig sy'n cyfateb i'r un MCA ML5 gan na fydd angen cyflwyno'r ffurflen orffenedig i'r MCA/RYA. I'r rhai hynny na fedrant ddarparu tystiolaeth log, fe fydd yr Uned Forwrol yn cynnal asesiad annibynnol o fedrusrwydd yr ymgeisydd.

Gwnaed gwaith ymchwil i'r Trwyddedau Cychwyr presennol gan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau ac fe gyflwynwyd yr ymatebion, er gwybodaeth, i Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol hwn yn ystod y cyfarfod.

Mewn ymateb i'r uchod, datganodd sawl Aelod mai trueni ydoedd bod cychwyr yn cwyno am y naill a'r llall ond braf ydoedd nodi nad oedd Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn nodi unrhyw bryder a bod trefniadau'r Cyngor mewn llaw ac yn briodol. Pwysleisiwyd bod gwasanaeth yr ysgraff yn bwysig iawn i Abermaw ac y dylid ceisio cydweithio er budd economi'r Harbwr a'r dref.

(iii) yng nghyswllt **ystadegau'r harbwr,** nodwyd bod 965 o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru gyda'r Cyngor yn 2010 sef cynnydd o 73 a 112 cwch pŵer. Tynnwyd sylw at ystadegau angorfeydd a oedd yn nodi bod 99 o gychod pleser wedi angori yn yr Harbwr a olygai bod 80% o'r angorfeydd yn cael eu defnyddio yn 2010, gostyngiad bychan iawn o'i gymharu â 2009. Er bod gostyngiad yn y nifer o gychod braf ydoedd nodi bod hyd cyffredinol cychod yn Abermaw wedi cynyddu ychydig yn 2010 - tueddiad cyffredinol mewn harbyrau eraill o fewn y Sir.

Tynnwyd sylw aelodau at y cymariaethau o gychod ymhob Harbwr o fewn y Sir, enwau'r cychod yr harbwr Abermaw a chyfanswm hydoedd a dyfnder cychod.

(iv) tywysodd y Swyddog Morwrol yr aelodau drwy gyllidebau'r harbwr gan dynnu sylw aelodau at y sefyllfa ariannol hyd at 31 Awst 2010 ynghyd a chyllideb gwariant yr harbyrau a thargedau incwm am 2010/11. Mynegwyd pryder am y targed incwm i harbwr Abermaw gan nodi mai £51,600 ydoedd y targed ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Hyd yn hyn, roedd yr Harbwr wedi cyrraedd targed o £30,957 sef diffyg o £20,642 ac ni ragwelir y byddai

ychwanegiad sylweddol i’r swm rhwng mis Hydref a mis Mawrth 2011 heblaw am ffioedd storio yn y gaeaf a ffioedd y lloc.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod ynglŷn â’r angen i gadw’r Cymhorthydd Harbwr ymlaen tan fis Rhagfyr, eglurodd y Swyddog Morwrol bod yn rhaid buddsoddi mewn staff yn unol â’r allbynnau. Roedd yn allweddol bwysig bod targedau gwaith yn cael eu cyrraedd ac eu cwblhau. Rhagwelir nad oedd y sefyllfa yn mynd i newid a bod blwyddyn heriol arall i’w wynebu i geisio cyrraedd y targed incwm angenrheidiol a sicrhau na fod y gwasanaeth yn ymrwymo gwariant yn uwch na chyllideb.

(v) nodwyd bod **tymestl arw** wedi taro’r harbyrau a thraethau Gwynedd ar 15/16 Gorffennaf 2010. Profwyd difrod sylweddol i gychod yn Harbwr Porthmadog gyda rhai cychod wedi eu dinistrio yn llwyr. Cymerodd y Swyddog Morwrol y cyfle i ddiolch i staff yr Harbyrau am eu cymorth a’u cefnogaeth yn ystod y storm eithriadol hon.

(vi) Adroddodd y Swyddog Morwrol y derbyniwyd cais gan Gyngor Cymuned Aberdyfi i ystyried cyflwyno cyfarfod ychwanegol o’r Pwyllgor Harbwr i galendr pwyllgorau’r Cyngor. Cyfansoddiad y Pwyllgor ychwanegol fyddai cynrychiolwyr o’r 4 Pwyllgor Harbwr (Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog a Phwllheli) gan gyfarfod ar ddyddiad fyddai hanner ffordd rhwng y Pwyllgorau a raglennwyd yn barod, unai yn ystod misoedd yr haf, neu ar ddiwedd mis Rhagfyr / dechrau mis Ionawr.

Atgoffwyd yr Aelodau bod pob y pedwar Pwyllgor Harbwr presennol wedi enwebu aelodau cyfetholedig i wasanaethu ar y Pwyllgorau Harbwr fel sylwedyddion fel bo modd rhannu gwybodaeth berthnasol i bob Pwyllgor Harbwr. Nodwyd bod Pwyllgor Ymgynghorol Porthmadog yn wahanol i Bwyllgorau Ymgynghorol yr Harbyrau eraill gan ei fod yn Bwyllgor Statudol a oedd wedi ei sefydlu yn unol â Deddfwriaeth yr Harbwr. Awgryma’r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod y sustem bresennol yn gweithredu’n effeithiol ac yn unol â’r Adolygiad Porthladdoedd Bwrdeistrefol ac yn galluogi Aelodau i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac i gyfrannu a chyflwyno sylwadau ar God Diogelwch Morol Porthladd yr harbwr perthnasol. Fe wel y Swyddog werth mewn ystyried cynnal Pwyllgor Harbwr ychwanegol pe byddai’n trafod materion technegol rhagweithiol o ddydd i ddydd ond nid i drafod materion strategol. Nid oedd yr adnoddau ar gael ychwaith i sefydlu a chynnal Pwyllgor ychwanegol.

Nodwyd ymhellach bod y Gwasanaeth Democratiaeth a Chyfreithiol yn edrych i mewn i’r posibilrwydd o gyflwyno’r cofnodion i un o brif bwyllgorau’r Cyngor.

Ymhelaethodd y Cynghorydd David Richardson ar gefndir y cais, sef nad oedd y cofnodion o werth oherwydd nad oeddynt yn cael eu cyflwyno ymhellach na’r Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr ac nad oedd sylwedyddion yn cael cyfrannu at drafodion y Pwyllgorau Ymgynghorol eraill (Aberdyfi, Abermaw, Porthmadog, a Phwllheli). Teimlwyd pe byddai un Pwyllgor Ymgynghorol ar y cyd yn cynnwys holl aelodau’r 4 Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr, y gellid cyfrannu at drafodaeth fuddiol a chreu hunaniaeth gorfforaethol i gynorthwyo’r atyniadau ymhob Harbwr. ‘Roedd oddeutu 1,000 o gychod yn Harbyrau Gwynedd ond nid oeddynt yn ymweld â Harbyrau Aberdyfi nac Abermaw. Fe anfonwyd hysbyseb i 55 o wahanol lefydd y flwyddyn ddiwethaf ac o ganlyniad cynyddwyd y nifer o gychod i Aberdyfi o 11 i 40 a olygai bod fwy o fudd i’r Harbwr ac i’r economi leol. Teimlai’r Aelod yn gryf y dylid ffurfio Pwyllgor ar y cyd er mwyn trafod a ffurfio cynllun i hyrwyddo’r holl Harbyrau a chyda ychydig o gydweithio rhagweithiol y byddai o fudd i bawb.

Ategodd sawl Aelod y farn uchod ac roeddynt yn gefnogol i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol ar y cyd yn flynyddol. Teimlwyd hefyd mai twristiaeth oedd prif ddiwydiant yr ardal ac y dylid hyrwyddo’r Harbyrau drwy hysbysebu mewn Sioeau Cychod, a.y.b.

Mewn ymateb i'r uchod, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol y byddai'n cyfleu dymuniad y Pwyllgor Ymgynghorol hwn i'r swyddogion perthnasol i'w ystyried ymhellach.

(vii) yng nghyswllt **digwyddiadau** braf ydoedd gweld cymaint o gychod yn cystadlu eleni yn ras y Tri Chopa o harbwr Abermaw a diolchwyd yn fawr i Bwyllgor y Ras am y trefniadau.

Nodwyd y byddai achlysur arbennig Canŵa ym mis Mai 2011 yn Abermaw a phwysleisiwyd yr angen i'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau gwledig fod yn barod gyda threfniadau mewn lle yn yr Harbwr ar gyfer yr achlysur pwysig hwn.

Cyrhaeddodd ansawdd y dŵr ymdrochi yn 2009 y Safon Canllaw gofynnol ac felly derbyniodd y traeth Wobr Ryngwladol y Faner Las yn 2010. Nodwyd bod ansawdd y Dwr ymdrochi traeth Abermaw yn 2010 i'w weld yn addawol hyd yma ond byddai'n rhaid aros hyd nes fo'r canlyniadau wedi eu cyhoeddi gan Asiantaeth yr Amgylchedd cyn y gellir dadansoddi ansawdd y dŵr ymdrochi am 2010.

Cyfeiriwyd Aelodau at y daflen yn dangos canlyniadau dwr ymdrochi er pwysleisiwyd y bydd samplau pellach i'w cymryd yn ystod weddill y tymor.

Nododd Aelod, ymddengys bod anghysondeb yn ffigyrau Asiantaeth yr Amgylchedd ac nad oedd rheswm penodol wedi ei nodi paham bod y dwr ddim yn cyrraedd y gofynion. Deallir bod Cyngor Tref Abermaw yn pryderu am yr anghysondebau a'r modd y darperir y canlyniadau a deallir y bwriedir gofyn am eglurhad gan Asiantaeth yr Amgylchedd a hyderir y gellir cyflwyno'r wybodaeth i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol hwn.

(viii) nododd y Swyddog Morwrol bod tanc **disel** newydd (sef tanc hanner maint yr un blaenorol) ar gost o £1,735 sy'n dal 5,000 litr o ddisel coch wedi ei osod yn yr Harbwr. Bydd gostwng y stoc i'r hanner yn sicrhau nad yw'r stoc o ddisel yn mynd yn hen ac felly mae llai o berygl iddo gael ei halogi gan anwedd.

**Penderfynwyd:- (a) Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a diolch i staff yr Harbwr am eu gwaith.**

**(b) Mabwysiadu'r Trwyddedau Perchnogion a Cychwyr ynghyd a'r rhestr o offer diogelwch sy'n cyfateb i ofynion Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau.**

**(c) Gofyn i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ymchwilio ymhellach gyda swyddogion perthnasol y Cyngor i sefydlu Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr ar y cyd gyda Phwyllgorau Ymgynghorol Harbyrau eraill i'w gynnal yn flynyddol.**

7. **<u>MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL</u>**

Ystyriwyd y materion a ganlyn, oedd heb eu trafod yn ystod y cyfarfod hwn a chafwyd ymateb y swyddog iddynt:-

(1) **Cysgodfa sydd wedi ei leoli ym Marine Parade.**

Mewn ymateb i bryder ynglŷn â'r cysodfan uchod, cadarnhaodd y Swyddog Morwrol yn unol â chytundeb Arweinydd Portffolio, y byddai trefniadau mewn llaw i dynnu'r gysgodfa i lawr yn ystod y misoedd nesaf. Pwysleiswyd bod angen awdurdod yr Arweinydd Portffolio cyn gellir gweithredu.

(2) **Compownd y Pysgotwyr**

Mynegwyd pryder ynglŷn â diogelwch compownd y pysgotwyr yn arbennig gan fod llawer iawn o ysbwriel wedi ei adael yno. Gofynnwyd a fyddai modd rhoi eitem ar raglen cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol i drafod ei ddyfodol.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol ei fod wedi profi'n anodd yn y gorffennol i gadw rheolaeth ar y compownd. Er bod y gwasanaeth wedi cyflwyno allweddau i unigolion ar gyfer mynediad, roedd y broblem o ysbwriel anawdurdodedig yn parhau.

Addawodd y Swyddog Morwrol y byddai'n ysgrifennu at y Cyngor Tref i drafod ceisio cael rheolaeth ar y tir.

(3) **Archwiliad Iechyd a Diogelwch oherwydd bod defnyddwyr yn bryderus am**

- Gyflwr ysgolion
- Gwaelod y llithrfa
- Arwyddion
- Natur tywod wedi ei heintio
- Y Glwyd

Ymhelaethodd Aelod ar y pryderon sef bod ysgolion wedi eu tolcio, gwaelod y llithrfa yn llithrig gyda thwll enfawr ar waelod y llithrfa a fyddai'n creu perygl.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol bod yn hanfodol bod yr Harbwr Feistr yn cynnal awdit ac archwiliadau wythnosol o'r uchod fel rhan o'i waith dydd i ddydd ac yn cofnodi archwiliadau. Yn sicr dylid ymateb yn gadarnhaol drwy weithredu i liniaru unrhyw broblemau a phryderon yn enwedig ar sail iechyd a diogelwch y cyhoedd. Apeliwyd ar i Aelodau gyflwyno unrhyw broblemau cyffelyb i'r dyfodol ar unwaith i'r Harbwr Feistr fel bo modd iddo weithredu arnynt fel rhan o'i ddyletswyddau dydd i ddydd.

Yng nghyswllt tywod wedi heintio, esboniodd y Prif Beiriannydd yn dilyn carthu yn yr Harbwr, fel unrhyw Harbwr arall, fe geir halogiad lefel isel ond sicrhawyd nad oedd yn creu perygl i'r cyhoedd. Yn unol â'r drefn fe fyddir yn ymdrin â'r tywod ac yn ei gludo i Ffridd Rasus.
Yn unol â chais, addawodd y Prif Beiriannydd anfon profion y labordy o'r tywod i Mr Denis Howell.

(4) **Hen Risiau'r Fferi – Adfer i lefel hanesyddol.**

Gofynnwyd yn wyneb y ffaith bod pedair ysgraff yn gweithredu yn yr Harbwr, a fyddai modd adfer yr hen risiau fel pwynt i ollwng teithwyr i ffwrdd.

Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog Morwrol nad oedd hyn yn bosibl oherwydd costau o oddeutu £30-£40,000 i'w adfer. Tra'n cydnabod y byddai pedair ysgraff yn gweithredu o'r Harbwr, gofynnir am eu cydweithrediad i ddefnyddio'r cyfleusterau presennol neu'r llithrfa.

Ychwanegwyd nad oedd cyllid ar gael i garthu'r Harbwr ychwaith. 'Roedd yr Harbwr wedi ei garthu ar nifer achlysur ond bod y broblem yn parhau.

(5) **Y diweddaraf am y pontynau**

Adroddwyd gan Aelod bod cais wedi ei gyflwyno i SPLASH am gymorth ariannol i ddatblygu pontynau ac yn dilyn anfon prisiau gan dri chwmni, deallir nad oedd arian ar gael. Fodd bynnag, penderfynwyd ail-gyflwyno cais eto. Gofynnwyd a oedd unrhyw syniadau ar gael gan y Gwasanaeth Morwrol a hefyd os oedd astudiaeth dichonoldeb ar gael ynglŷn â wal yr Harbwr.

Mewn ymateb, esboniodd y Prif Beiriannydd yng nghyd-destun wal yr Harbwr y byddai'n angenrheidiol cyflogi peiriannydd arbenigol i gynnal astudiaeth o wal yr Harbwr - nid oedd yr arbenigedd o fewn y Cyngor. Ychwanegodd y Swyddog Morwrol a'r Cadeirydd y dylid cysylltu â'r Harbwr Feistr i ganfod y sefyllfa gyda phrisiau a.y.b. Cynghorwyd ymhellach i gael costau a chynlluniau yn barod fel bo modd cyflwyno'r rhain yn ddi-oed pan ddaw cyfle.

(6) **Pwyntiau trydan yn yr Harbwr**

Adroddwyd bod y pwyntiau trydan yn rhydu ac angen eu hadnewyddu ac o ganlyniad mynegwyd pryder nad oeddynt yn ddiogel.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Morwrol ei fod dan yr argraff eu bod wedi eu harchwilio yn ystod yr wythnosau diwethaf o ran diogelwch ond y byddai'n dilyn y mater i fyny hefo'r Harbwr Feistr.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r sylwadau wnaed ynghyd ag atebion y swyddogion i'r rhain.**

8. **<u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**

Adroddwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 8 Mawrth 2011.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod**

**<u>CADEIRYDD</u>**